



DEWCH Â'CH DYFAIS EICH HUNAN – POLISI CA4 – CA5

Gyda thwf technoleg yn parhau ar raddfa gyflym, rydym yn cydnabod bod manteision addysgol mawr i ddisgyblion allu defnyddio dyfeisiau eu hunain ar gyfer gwella'u dysgu. Mae cael mynediad i'r we ar gyfer ymchwilio ac astudio'n annibynnol yn allweddol i fywyd myfyrwyr yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5. Mae gan fwy o ddisgyblion fynediad i ddyfeisiau sy'n cysylltu â'r we o ganlyniad i dechnoleg sy'n newid ac esblygu ac felly rydym am gefnogi hyn a galluogi mynediad cyflym a hawdd i'r we er mwyn gwella dysgu.

Hidrir mynediad i rwydwaith diwifr Ysgol Gyfun Gŵyr yn unol â pholisi'r awdurdod lleol ar ddefnydd diogel o'r we, boed yn ddyfeisiau a ddarperir gan ysgolion neu ddyfeisiau personol. Fodd bynnag, caiff mynediad o ddyfeisiau personol (**cluniaduron neu dabledi yn unig**) ei gyfyngu i ddefnydd o'r we'n unig. Ni fydd gan blant fynediad i unrhyw ddogfennau sydd ar rwydwaith yr ysgol o'u dyfeisiau personol.

Mae mynediad i rwydwaith diwifr Ysgol Gyfun Gŵyr **yn fraint, nid yn hawl**. Mae unrhyw ddefnydd o'r rhwydwaith diwifr yn golygu cyfrifoldeb personol a chydymffurfio â holl reolau'r ysgol. Mae defnydd o'r rhwydwaith hefyd yn galluogi staff TGCh i ymchwilio i ddefnydd amhriodol o'r we ar unrhyw adeg, ar gais athro.

Cael mynediad i'r rhwydwaith:

I gael mynediad i'r rhwydwaith, bydd angen i ddisgybl fynd â'i (d)dyfais personol i swyddfa'r Rheolwr Rhwydwaith i'w chofrestru gan roi y manylion canlynol:

- ei (h)enw
- y math o ddyfais
- rhif cyfresol y ddyfais

Cesglir y manylion gan Reolwr y Rhwydwaith ac yna bydd yn rhoi'r allwedd mynediad i mewn i'r peiriant. Bydd hyn yn rhoi mynediad i'r myfyriwr i'r rhwydwaith diwifr. Ni fydd y Rheolwr Rhwydwaith yn rhoi'r allwedd i'r disgybl. Bydd y Rheolwr Rhwydwaith yn cadw cofnod o'r holl allweddi mynediad. Os teimlir nad yw'r dyfais yn addas ar gyfer ei gosod ar rwydwaith diwifr yr ysgol, mae hawl gan y Rheolwr Rhwydwaith i wrthod y ddyfais.

Canllawiau defnydd:

- Prif bwrpas defnyddio dyfeisiau personol yn y Chweched yw i **gefnogi a hyrwyddo dysgu** ac astudio annibynnol. **Ni ddylid** defnyddio'r ddyfais am resymau eraill e.e. gwefannau cymdeithasol.
- Gall disgyblion y chweched ddefnyddio dyfeisiau personol yn ystod diwrnod ysgol yn ôl disgrisiwn athrawon a staff. Rhaid i ddisgyblion ddefnyddio dyfeisiau yn ôl cyfarwyddyd yr athro.
- Ni ddylai defnyddio dyfais personol fod yn ffordd o dynnu sylw athrawon neu ddisgyblion mewn unrhyw ffordd. Ni ddylai dyfeisiau personol amharu ar ddysgu eraill mewn unrhyw fodd.
- Ni ddylai disgyblion wneud unrhyw ymgais i fynd y tu allan i ddiogelwch rhwydwaith yr ysgol a/neu bolisiâu hidlo. Mae hyn yn cynnwys gosod procsïaid a lawrlwytho rhaglenni i osgoi diogelwch.



- Ni ddylai disgyblion ddsbarthu lluniau neu fideos o ddisgyblion neu aelodau staff heb eu caniatâd ar unrhyw amod (gall dosbarthiad fod mor fach ag e-bostio/tecstio rhywun arall neu mor fawr â phostio llun neu fideo ar-lein).

Canlyniadau camddefnydd/amhariad (gall un neu fwy fod yn berthnasol):

- Caiff mynediad i'r rhwydwaith diwifr ei dynnu yn ôl.
- Caiff y ddyfais ei chymryd ymaith am gyfnod.
- Caiff y ddyfais ei chymryd ymaith a'i chadw yn Swyddfa Pennaeth y Chweched / Derbynfa hyd nes i'r rhiant ei hôl.
- Ni fydd gan y disgybl yr hawl i ddefnyddio dyfeisiau personol yn yr ysgol.

Datganiad Atebolrwydd yr Ysgol

Mae disgyblion yn dod â'u dyfeisiau eu hunain i'r ysgol ar eu menter eu hunain. Disgwylir i ddisgyblion ymddwyn yn gyfrifol o ran eu dyfais eu hunain, gan ei chadw'n gyfredol ac mor ddiogel â phosib. Eu dyletswydd nhw yw bod yn gyfrifol am gynnal a diogelu eu dyfeisiau.

Nid yw Ysgol Gyfun Gŵyr yn gyfrifol am y canlynol mewn unrhyw ffordd:

- Dyfeisiau personol sy'n cael eu torri yn neu yn ystod gweithgareddau â noddir gan yr ysgol
- Dyfeisiau personol sy'n cael eu colli neu eu dwyn yn neu yn ystod gweithgareddau a noddir gan yr ysgol
- Cynnal neu gadw unrhyw ddyfais yn gyfredol (ei gwefru, gosod diweddariadau neu welliannau, trwsio unrhyw broblemau meddalwedd neu galedwedd).

Ymwadiad - darllenwch yn ofalus (Rhiant/Gofalwr)

Nid yw Ysgol Gyfun Gŵyr yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled/ddifrod i ddyfeisiau TGCh personol pan fyddant yn yr ysgol, yn ystod gweithgareddau a noddir gan yr ysgol neu ar daith. Penderfyniad y disgybl a'i riant/rhieni neu ofalwr/gofalwr yw dod â dyfais TGCh personol i'r ysgol. Yn ogystal, eu hatebolrwydd nhw yw unrhyw golled/ddifrod a all ddigwydd o ganlyniad i ddefnyddio dyfais TGCh personol yn yr ysgol. Dylech ddeall eich bod chi'n cytuno i'r ymwadiad hwn drwy ganiatáu eich plentyn i ddod â dyfeisiau TGCh personol i'r ysgol.

Ticiwch y blychau isod os ydych yn caniatáu i'ch plentyn ddod a'i (d)dyfais ei hun i'r ysgol ar gyfer ei (d)defnydd personol i wella dysgu yn unig.

Enw'r disgybl: _____

Rwy'n deall yr amodau uchod.

Rwy'n deall ac yn derbyn nid oes gan yr ysgol unrhyw gyfrifoldeb ar gyfer colled neu ddifrod i unrhyw ddyfeisiadau personol mae fy mhentyn yn dod i'r ysgol.

Llofnod: _____ Dyddiad: _____